# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CYNGHORI'R CABINET – DATBLYGU

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD MERCHER, 19 HYDREF 2016 AM 3.00 PM

**YN BRESENNOL**: Bu'r Cynghorydd P Downing (Cadeirydd) yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | C R Doyle | P Lloyd |
| C Thomas | T M White | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Martin Bignell | Rheolwr yr Uned Gwasanaethau Coed |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Mark Thomas | Arweinydd Grŵp, Tîm Rheoli'r Rhwydwaith Traffig a Phriffyrdd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): R D Lewis, P M Matthews, P B Smith a/ac G J Tanner

36 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

37 **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo a llofnodi Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Ddatblygu a gynhaliwyd ar 21 Medi 2016 fel cofnod cywir.

38 **POLISI COED.**

Rhoddodd Rheolwr Gwasanaethau Coed yr wybodaeth ddiweddaraf, a chanolbwyntiodd ar y canlynol:

- "Nodau" Polisi Coed (Stoc Coed y Cyngor). Byddai hyn yn dilyn y "cyflwyniad" a gafodd ei drafod yn y cyfarfod diwethaf;
- Ffigurau o arolygon a gynhaliwyd a gwybodaeth amdanynt mewn cysylltiad â nifer yr:
  - Adrannau gyda choed ar eu tir;
  - Adrannau eraill sy'n ymdrin â choed a phroblemau coetir;
- Is-adran 5(2) - 5(5) y "Ddogfen Ddrafft". Dylid nodi y byddai'r testun a amlygwyd yn y ddogfen yn cael ei gadarnhau maes o law.

Gofynnodd y Cynghorwyr gwestiynau amrywiol i'r swyddog, a ymatebodd yn briodol.

Bydd Alan Webster, Cynorthwy-ydd Tirlunio (Tyfwr Coed) o'r Is-adran Cynllunio Strategol ac Amgylchedd Naturiol yn y cyfarfod nesaf hefyd.

**PENDERFYNWYD**:

1) Cymeradwyo'r is-adran "Nodau";
2) Cadarnhau'r testun a amlygwyd ym mhwyntiau 5(2) – 5(5);
3) Y dylai'r pwyllgor ganolbwyntio ar y Ddogfen Ddrafft o bwynt 5(6) Malu Bonion yn y cyfarfod nesaf;
4) Y dylai'r swyddog ddarparu enghreifftiau o'r cwynion amrywiol a dderbyniwyd mewn perthynas â choed a sut yr ymdrinnir â nhw yn y cyfarfod nesaf.

## 39 ARWEINIAD AR GYFER GWAITH AR Y BRIFFORDD A MABWYSIADU ISADEILEDD NEWYDD.

Gwnaeth Arweinydd Grŵp, Tîm Rheoli'r Rhwydwaith Traffig a Phriffyrdd adrodd am y ddogfen, Arweiniad ar gyfer Gwaith ar y Briffordd a Mabwysiadu Isadeiledd Newydd, a fyddai'n rhoi gwybodaeth i ddatblygwyr am agweddau ar y briffordd yn yr arweiniad ar gyfer gwneud cais cyn-gynllunio a byddai'n cyflwyno graddfa symudol o ffïoedd ar gyfer cytundebau mabwysiadu priffyrdd.

Amlinellodd wybodaeth gefndir am pam y lluniwyd y ddogfen arweiniol er mwyn cynorthwyo datblygwyr i gydymffurfio â'r Ddeddf Priffyrdd, fel rhan o gynllunio a chyflawni'r datblygiadau.

Trafododd y pwyllgor nifer presennol y safleoedd sydd heb eu mabwysiadu yn Abertawe a arweiniodd at rai preswylwyr lleol yn gorfod talu ffi cynnal a chadw flynyddol neu, mewn rhai achosion, gael eu strydoedd a goleuadau cyhoeddus wedi'u cynnal a'u cadw i safon annerbyniol gydag ymyriadau afreolaidd gan y datblygwr.

Aeth ymlaen i esbonio'r problemau hanesyddol a gafwyd gyda'r datblygwyr. O ganlyniad i hyn, ni chafodd sawl safle eu cynnig i'w mabwysiadu. Gobeithiwyd y byddai'r ddogfen arweiniol, a esboniodd sut byddai symiau cynnal a chadw gostyngol a chyflwyno graddfa symudol o ffïoedd sy'n ofynnol yn ôl Adran 38, yn cynyddu nifer y safleoedd sy'n cael eu cynnig i'w mabwysiadu ac yn arwain at incwm ffïoedd cynyddol ar gyfer yr awdurdod. Roedd trafodaethau cychwynnol gyda datblygwyr wedi croesawu argymell yr ymagwedd.

**PENDERFYNWYD** y dylid:

1) Nodi'r adroddiad a'r ddogfen arweiniol a'u cyfeirio i Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Chludiant;
2) Cyhoeddi enwau safleoedd heb eu mabwysiadu mewn fforwm priodol.

40 **Y DIWEDDARAF GAN Y CADEIRYDD (LLAFAR).**

Adroddodd y Cadeirydd y byddai Lisa Wells, o ganlyniad i salwch, yn mynd i'r cyfarfod nesaf a drefnir ar gyfer 16 Tachwedd 2016 mewn perthynas â Marchnad Abertawe a throi Stryd y Gwynt yn barth cerddwyr. Gwnaeth hefyd awgrymu y dylid cynnal ymweliad safle i weld y cynllun a manteision y stryd sydd wedi'i phedestreiddio yng Nghaerdydd.

41 **CYNLLUN GWAITH.**

Cyflwynodd y Cadeirydd y Cynllun Gwaith ar gyfer 2016-17.

**PENDERFYNWYD** y dylid nodi'r Cynllun Gwaith.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.25 pm

**CADEIRYDD**